**Llythyr 15**

**Mae Corff Llywodraethol Gwenffrwd wedi derbyn neges pwysig gan PC Mark Jones i'w  rhannu gyda chwi – gw. Isod:**

## NEGES HEDDLU I YSGOLION CALAN GAEAF A THAN GWYLLT 2020

Fel y gwyddoch i gyd, byddwn yn dechrau cyfnod cloi arall unwaith eto o chwech o'r gloch nos Wener.

**Ar gyfer Calan Gaeaf**

• Gofynnwn i bawb feddwl sut y gallant gadw  pawb yn ddiogel y Calan Gaeaf hwn a pheidio â lledaenu Covid-19.

• Ni chaniateir 'Trick or Treat' traddodiadol

• Ni chaniateir partïon Calan Gaeaf yn eich cartref neu mewn lleoliad arall

• Peidiwch â chwrdd ag unrhyw un dan do nad ydych yn byw gyda ac ni ddylech gyfarfod â'ch ffrindiau dan do neu yn yr awyr agored.

• Dathlwch gartref a pheidiwch a mynd allan.

**Ar gyfer Noson Tân Gwyllt**

• Ni fydd coelcerthi cyhoeddus nac arddangosfeydd tân gwyllt yn cael eu cynnal eleni

• Ni chaniateir i unrhyw ymwelwyr fynd i mewn i'ch gardd ac os bydd arddangosfa  tân gwyllt yn eich gardd yn troi'n barti yn eich tŷ, byddwch yn torri'r gyfraith ac yn rhoi pawb mewn perygl o ddal COVID. Bydd eich rhieni'n torri'r gyfraith.

• COFIWCH mae'n anghyfreithlon prynu Tân Gwyllt dan 18 oed – gallai  eich rhieni'n cael eu herlyn.

• Ni ddylech danio tân gwyllt mewn parc neu le agored cyhoeddus. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwahardd hyn.

• Mae tanio tân gwyllt ar y stryd yn wrthgymdeithasol.  Gall fod yn risg tân ac mae'n erbyn y gyfraith.

**Gofynnwn yn garedig i bob un ohonoch weithredu'n gyfrifol. Cadwch eich hun a'ch teulu'n ddiogel i atal ychwanegu pwysau ar y gwasanaethau brys yn ystod cyfnod sydd eisoes yn brysur.**

**Diolch am eich cydweithrediad.**